# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 25AIN MEDI, 2023**

**(I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 15 Medi 2023)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Huw Rowlands
Alan Jones Evans
Arwyn Herald Roberts
Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gwynfor Owen
Sedd Wag - Plaid Cymru

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anwen J. Davies
Gareth Williams
John Brynmor Hughes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12 Mehefin 2023 fel rhai cywir

## 5. COFNODION ISBWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG — 5 - 24

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 26 Mai 2023
b) 12 Mehefin 2023
c) 14 Gorffennaf 2023

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 12-06-2023**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Eryl Jones-Williams, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Rheinallt Puw, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts a Gareth Williams

**Swyddogion:** Sion Huws (Cyfreithiwr – Gwasanaethau Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2023/24**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2023/24**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2023/24**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2023/24**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen Davies, Alan Jones Evans ac Angela Russell

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Hydref 22ain 2022 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 21 Ebrill 2023, 10 Chwefror 2023, 23 Ionawr 2023, a 23 Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am a daeth i ben am 10:50am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 26 Mai 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), John Brynmor Hughes ac Arwyn Herald Roberts**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sonja Rochelle, Nerys Williams a Robert Cordingley (Preswylwyr Lleol – BrynTeg)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO PARC GWYLIAU BRYNTEG, LLANRUG, GWYNEDD**

**Eraill a wahoddwyd:**

Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)
Mr Jonathan Smith (Cynrychiolydd Park Holidays UK)
Mr John Flack (Pennaeth Adloniant Park Holidays UK)
Mr Gavin Cox (Rheolwr Cyffredinol Bryn Teg)
Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Lleol)
Fiona Zinovieff (Preswylydd Lleol)
Ffion Muscroft (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywiad trwydded eiddo gan gwmni Park Holidays Ltd mewn perthynas a cheiso'r hawl i wneud newidiadau i gynllun lleoliad ardal drwyddedig Bar y Lolfa a'r ardal fwyta. Yn ogystal, gofynnwyd am yr hawl i ychwanegu'r gweithgareddau trywddedig Dramau, Bocsio / Paffio a Restlo, a pherfformiadau o ddawns tu mewn yn unig ddydd Llun i ddydd Sul 9:00 y bore tan hanner nos.

Cadarnhawyd y byddai pob rhan o'r cynllun amlinelliad ardal drwyddedig yn aros yr un fath, ac y bydd y gweithgareddau trwyddedig ac oriau sydd ar y drwydded gyfredol yn aros yr un fath. Gofynnwyd am yr hawl i newid amod ar y drwydded er mwyn gallu cydymffurfio gyda'r newidiadau i'r cynlluniau amlinellol. Nid oedd yr ymgeisydd yn cynnig unrhyw amodau ychwanegol i'r hyn sydd ar atodlen weithredol y drwydded gyfredol, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Nid oedd unrhyw newid i'r oriau gweithgareddau

trwyddedig, nac i’r amodau yn yr atodlen weithredol.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a’r rheoliadau perthnasol.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod gwrthwynebiadau i’r cais wedi eu derbyn gan amryw o breswylwyr cyfagos, y Cyngor Cymuned a’r Aelod Lleol oedd yn cyfeirio at bryderon mewn perthynas ar Amcanion Trwyddedu o Niwsans Cyhoeddus (parhad a chynnydd mewn aflonyddwch swn yn bennaf) a Diogelwch y Cyhoedd. Amlygwyd bod Adran Gwarchod y Cyhoedd wedi cadarnhau bod cwynion wedi eu derbyn. Nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru wrthwynebiad i’r cais

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell gwrthod y cais ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd; oni all yr ymgeisydd gynnig mesurau rheoli sŵn yn yr atodlen weithredol, a chyfyngu gweigareddau adloniant rheoledig trwyddedig tu mewn yn unig.

Ers dyddiad cyhoeddi’r adroddiad, cynigiwyd amodau arfaethedig gan yr ymgeisydd ynghyd ag astudiaeth achos Taylor *v Manchester City Council* yn dangos dymuniad y cyfreithwyr ar ran yr ymgeisydd i wneud y pwynt mai ystyried y materion sydd yn destun amrywiad a ddylai’r Awdurdod Trwyddedu fod yn ei wneud yn hytrach nag amodau / a gweithgareddau trwyddedig sydd eisoes ar y drwydded. Roedd yr amodau arfaethedig yn cynnig;

- Byddai bocsio a reslo fel gweithgareddau trwyddedig yn cael eu dileu o'r cais.
- Bod cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio i'w chwarae dan do yn unig.
- Na fydd unrhyw wastraff neu ddeunyddiau ailgylchadwy, gan gynnwys poteli, yn cael eu symud neu eu gosod mewn unrhyw ardal allanol rhwng 23:00 a 08:00 y diwrnod canlynol. [I ddisodli’r amod presennol o dan ‘Niwsans Cyhoeddus’]
- Byddai'r holl ffenestri a drysau (gan gynnwys drysau deublyg) yn cael eu cadw ar gau ar ôl 23:00 pan fydd Adloniant Rheoledig yn digwydd, ac eithrio mynediad ac allanfa uniongyrchol pobl.
- Bydd rhif ffôn ar gael yn ystod y ddarpariaeth Adloniant Rheoledig i'r bobl hynny sydd wedi cyflwyno sylwadau yn erbyn amrywio'r Drwydded Eiddo.

Amlygywd bod cyfreithwyr yr ymgeisydd wedi anfon drafft o’r cais cyn ei gyflwyno i Swyddog Gwarchod yr Amgylchedd, oherwydd hanes cwynion sŵn. Cytunwyd gyda’r Swyddog na fyddai gwrthwynebiad Iechyd Amgylchedd i’r cais am amrywiad os byddai’r ymgeisydd yn fodlon tynnu’r hawl i gynnal adloniant rheoledig tu allan i’r eiddo oddi ar y drwydded. Pan gyflwynwyd y cais, nid oedd yn cynnwys yr amrywiad a gytunwyd i gyfyngu adloniant tu mewn yn unig oherwydd hanes o gwynion sŵn. Dyma felly oedd sail argymhelliad yr adroddiad.

Ar sail yr amodau newydd a gynigiwyd roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell caniatáu y cais.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:

- Bod y cais i gynnwys dangos ffilmiau
- Bod y parc gwyliau wedi ei brynu gan Park Holidays Ltd yng Ngorffennaf 2022 ac felly bod nifer o'r cwynion a gyfeiriwyd atynt yn hanesyddol.
- Bod rheolwr safle wedi ei benodi ac y bydd rhif ei ffôn ar gael
- Bod gwaith wedi ei wneud i addasu cynllun llawr yr ardal drwyddedig
- Nad oedd cais am estyniad i oriau gwerthu alcohol
- Bod yr amodau arfaethedig a gynigwyd yn lliniaru pryderon

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a chau ffenestri i gadw'r sŵn i lawr ac os oedd hyn yn rhan o'r drwydded bresennol, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad oedd wedi ei gynnwys ar y drwydded, ond yn rhan o ymarfer da i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amser mynediad i'r cyhoedd, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd bod y parc gwyliau ar agor i berchnogion y carafanau a'u gwesteion. Ategodd bod gwerthu alcohol yn gorffen am 2am ac nad oedd cais i newid hyn.

Amlygodd y Cyfreithiwr nad oedd modd trafod amodau'r drwydded bresennol ac mai'r 'amrywiad' yn unig oedd dan sylw

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

**Cyng. Berwyn parry Jones (Aelod Lleol)**

- Ei fod yn croesawu yr amodau arfaethedig – hyn yn dro pedol
- Yn gobeithio y byddai'r cwmni yn cadw at ei gair - ni welwyd newid yn y gorffennol – angen sicrwydd
- Bod angen diweddaru'r cynllun llawr i ddynodi'r addasiadau
- Ers i'r drysau mewnblyg eu gosod, hyn wedi arwain at y noson fwyaf swnllyd erioed - seremoni'r coroni
- Bod ganddo amheuon ynglŷn ag ymarferoldeb cau drysau a ffenestri, ond yn deall bod system aerdymheru mewn lle
- Derbyn bod perchnogion newydd i'r Parc ond ymddengys bod mwy o ystyriaeth yn cael ei roi ar fwynderau trigolion y Parc ac nid trigolion lleol (sydd i raddau yn agosach at y sŵn na pherchnogion y carafanau).
- Bod y cynigion lliniaru sŵn wedi eu cyflwyno yn frysiog ac nad oedd sicrwydd y byddai hyn yn llwyddiannus - awgrymu gohirio penderfyniad hyn nes bydd cynllun diwygiedig wedi ei gyflwyno a bod rheolwyr y parc wedi gwneud ymdrech i roi mesurau rheoli a lliniaru effaith sŵn effeithiol mewn lle.

**Fiona Zinovieff**

- Mwy o sŵn o ganlyniad i osod drysau plyg newydd
- Nad oedd cwynion yn 2022 oherwydd nad oedd adloniant yn cael ei gynnal
- Bod sŵn o noson ddathlu'r coroni wedi bod yn annioddefol
- Bod y sŵn yn cario i dai cyfagos
- Bod y gwaith ailwampio wedi golygu bod yr adral adloniant bellach yn cefnu ar y tai cyfagos – drysau agored yn unig ar y ffin
- Wedi derbyn addewidion yn y gorffennol ond heb eu gwireddu

**Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)**

- Bod cwynion sŵn yn berthnasol i'r Adran Gwarchod y Cyhoedd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â nifer cwynion a dderbyniwyd, nodwyd bod cwynon wedi eu derbyn gan Adran Gwarchod y Cyhoedd yn ystod noson dathlu'r coroni ac mewn ymateb bod rheolaeth gaeth bellach i gadw'r drysau plyg ar gau yn ystod digwyddiadau trwyddedig.

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi eu hachos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd;

- Bod gan y cwmni 64 o safleoedd ac felly nid oedd yn gwmni bach
- Bod amodau diogelwch wedi eu cynnig
- Bod y cynllun llawr wedi cael ei addasu
- Bydd rhif ffon ar gael i drigolion lleol
- Nad oedd oriau ychwanegol yn rhan o'r cai
- Y gobaith yw gwella'r sefyllfa ac na fydd adolygiad o'r drwydded

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu:

- Bod yr amodau arfaethedig a gyflwynwyd wedi newid yr argymhelliad
- Pe byddai'r Isbwyllgor yn penderfynu caniatáu y cais a derbyn yr amodau, byddai rhaid i eiriad yr amodau fod yn glir o ran eglurhad gweithredu a gorfodi – bod grym amodi effeithiol gan yr Is-bwyllgor

d) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.**

Rhoddir amrywiadau i'r drwydded gyfredol fel a ganlyn:

**Y cynllun gyflwynwyd gyda'r cais i'w addasu yn sgil y ffaith na fydd gweithgareddau trwyddedig yn digwydd o dan do yn unig.**

**Ychwanegu'r gweithgareddau canlynol at y drwydded:**

**Dramau: Dan Do**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Llun | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mawrth | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mercher | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Iau | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Gwener | 09:00 | - | 24:00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sadwrn | 09:00 | - | 24:00 |

**Ffilmiau: Dan do**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Llun | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mawrth | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mercher | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Iau | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Gwener | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 | - | 24:00 |

**Digwyddiadau Chwaraeon dan do:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Llun | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mawrth | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mercher | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Iau | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Gwener | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 | - | 24:00 |

**Perfformiadau Dawns: Dan Do**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Llun | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mawrth | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Mercher | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Iau | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Gwener | 09:00 | - | 24:00 |
| Dydd Sadwrn | 09:00 | - | 24:00 |

**Cerddoriaeth Fyw - Y gweithgaredd i’w gyfyngu i fod dan do yn unig o hyn ymlaen**

**Cerddoriaeth Wedi ei Recordio - Y gweithgaredd i’w gyfyngu i fod dan do yn unig o hyn ymlaen**

**Amrywio’r amodau presennol fel y nodir yn y cais, ond wedi ei addasu ymhellach i gymryd i ystyriaeth fod y gweithgareddau trwyddedig bellach wedi eu cyfyngu i fod dan do a bod y cynllun fel canlyniad wedi ei addasu fel nodir uchod.**

**Ychwanegu’r amodau canlynol i’r drwydded:**

**Ni chaniateir symud unrhyw wastraff neu ddeunyddiau ailgylchadwy, gan gynnwys poteli, na'u symud o neu eu gosod mewn unrhyw ardal allanol rhwng 23:00 a 08:00 y diwrnod canlynol. [I ddisodli’r amod presennol o dan ‘Niwsans Cyhoeddus’]**

**Yr holl ffenestri a drysau (yn cynnwys, i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, y drysau ‘bi-fold’) yn cael eu cadw ar gau ar ôl 23:00 pan fydd Adloniant Rheoledig yn digwydd, ac eithrio i ganiatau mynediad ac allanfa pobl.**

**Bydd rhif ffôn ar gael yn ystod darparu Adloniant Rheoleiddied i'r bobl hynny sydd wedi cyflwyno sylwadau yn erbyn amrywio'r Drwydded Safle i'w hystyried mewn gwrandawiad ar 26 Mai 2023.**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i’r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais a ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** roedd un ymatebydd o'r farn fod ardal y bar yn fychan iawn ar gyfer niferoedd cwsmeriaid a fwriedir, ond mae capasiti yn fater i'r asesiad risg tân yn hytrach na'r gyfundrefn drwyddedu. Roedd sawl ymatebydd yn nodi fod y ffordd at fynedfa Bryn Teg yn gul , prysur a pheryglus, ond nid oedd dim tystiolaeth i awgrymu na ddylid caniatáu'r cais ar y sail yma.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus,** nodwyd y profiadau o aflonyddwch oherwydd sŵn yn deillio o'r parc gwyliau dros y blynyddoedd diwethaf gydag amryw o drigolion yn nodi fod y sŵn wedi bod yn ddigon drwg ac yn digwydd digon rheolaidd fel y bu iddynt gwyno ar sawl achlysur i'r aelod lleol, i'r Cyngor ac yn uniongyrchol i gyn-reolwyr Bryn Teg.

Nodwyd o'r ymatebion fod achlysuron lle nad oedd drysau a ffenestri yn cael eu cau yn ystod adloniant tu mewn i'r adeilad; ac fel canlyniad fod sŵn i'w glywed yn glir ac uchel mewn anheddau tu hwnt i'r parc.

Roedd sawl ymatebydd yn nodi fod poteli gwydr yn cael eu gwagio i gynhwysyddion ailgylchu tu allan yn hwyr yn y nos ar ôl i weithgareddau trwyddedig ddod i ben. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod amod ar atodlen weithredol gyfredol yr eiddo sydd yn nodi nad yw hyn i fod i ddigwydd

Roedd swyddogion wedi cadarnhau fod cwynion sŵn wedi eu derbyn gan drigolion lleol am weithgareddau trwyddedig ar y Parc Gwyliau, a bod ymgais wedi bod i gael rheolwyr y Parc i liniaru'r sŵn.

Nodwyd serch hynny na chyflwynwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd ar sail dealltwriaeth mai'r bwriad oedd cyfyngu'r gweithgareddau trwyddedig cyfredol i'r tu mewn yn unig a bod y cais bellach wedi ei ddiwygio i gyfarch pryderon yr Awdurdod

Roedd amodau penodol wedi eu cynnig i fynd i'r afael a sŵn ac egluroddd y swyddogion bod cau ffenestri a drysau yn ddull effeithiol iawn o reoli sŵn. Nodwyd hefyd bod system aerdymheru bellach wedi ei osod fel na fydd rhaid agor ffenestri pan fydd hi'n boeth.

Nodwyd bod y problemau wedi codi yn ystod cyfnod perchnogion a rheolwyr blaenorol, er bod un achos diweddar lle roedd ffesnest ar agor, ond byddai amod newydd pendol yn delio a hyn

Ar nodyn cyffredinol, dylid nodi y gallai'r is-bwyllgor ond ystyried yr amrywiad penodol oedd yn destun y cais. Pe bai problemau'n codi gyda'r modd yr oedd yr eiddo yn cael ei redeg o safbwynt trwyddedu, yna roedd y ddeddfwriaeth yn darparu gweithdrefn adolygu lle gellid gofyn i'r awdurdod adolygu unrhyw agwedd o'r drwydded os oedd angen.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Roedd yr Is-bwyllgor yn falch o nodi bod yr ymgeisydd wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd ac wedi bod yn fodlon cyfaddawdu drwy addasu'r cais a chynnig lleihau'r gweithgareddau oedd eisoes ar y drwydded. Yn yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais fel yr addaswyd ef yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly fe ganiateir y cais

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

## 5. CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO NEW HORIZONS, PARC SUNNYSANDS, TAL Y BONT, GWYNEDD

**Eraill a wahoddwyd:**

Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)
Ryan Rothwell (Cynrychiolydd yr ymgeisydd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Aelod Lleol)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am amrywiad trwydded eiddo gan gwmni New Horizons mewn perthynas ag ymestyn yr oriau Alcohol, oriau Cerddoriaeth Fyw ac wedi ei Recordio. Amlygwyd bod y drwydded bresennol yn caniatáu Gweithgareddau Trwyddedig hyd 11yh dydd Sul - Sadwrn, a bod yr ymgeisydd yn cynnig amodau diwygiedig i ymestyn o 11yh i 2yb. Byddai'r gerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio ond yn digwydd dan do.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod gwrthwynebiad i'r cais wedi ei dderbyn gan breswylydd cyfagos oedd yn pryderu am gynnydd swn o'r safle ac y byddai ehangu'r oriau yn newid naws deuluol y parc. Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno sylwadau oedd yn cynnwys argymell amodau TCC, Polisi Her 25 ac nad oedd hawl i blant fod ar yr eiddo wedi 23:00.

Nodwyd bod yr Heddlu wedi ymweld a'r safle a cadarnhaodd yr ymgeisydd dros e-bost y byddai holl awgrymiadau'r Heddlu yn cael eu cynnwys yn rhaglen weithredol y drwydded newydd os byddai'r cais yn cael ei ganiatau gan yr Is-bwyllgor.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell cymeradwyo'r cais yn unol â sylwadau'r Heddlu a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu

hachos.

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:
- Bod y Parc Gwyliau wedi cydweithio gyda'r Heddlu
- Mai dim ond un gwrthwynebiad oeddd wedi dod i law
- Bod perchnogion yn gwisgo band garddwrn ar gyfer mynediad
- Bydd goruchwylwyr drysau yn aros hyd nes bydd popeth wedi cau lawr

c) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

**Cyng. Eryl Jones Williams (Aelod Lleol)**
- Ei fod yn pryderu bod yr eiddo yn mynd i fod ar agor i'r cyhoedd
- Bod angen sicrhau bod goruchwylwyr drysau ar gael a bod mesurau diogelwch yn eu lle

**Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)**
- Bod cytundeb i ymestyn oriau caniatáu plant i mewn i'r eiddo o 23:00 i 23:30
- Bod yr Heddlu wedi eu galw i'r Parc i ymdrin ag achosion domestig ac nid at faterion yn ymwneud a'r eiddo trwyddedig

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd y galwadau yn ymwneud ag alcohol, nodwyd bod alcohol yn ffactor mewn nifer o'r digwyddiadau, ond nad oedd modd gwahaniaethu rhwng yfed ar yr eiddo ac yfed mewn carafanau. Ategodd, gyda bwriad i ymestyn oriau gwerthu alcohol hyd 2:00, bod gan yr eiddo fesuriadau rheolaeth mewn lle, yn wahanol i reoli yfed yn breifat mewn carafán.

ch) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

v. Atal trosedd ac anhrefn
vi. Atal niwsans cyhoeddus
vii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
viii. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais yn unol â sylwadau'r Heddlu, a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.**

Rhoddwyd amrywiadau i'r drwydded gyfredol fel a ganlyn:

**Cerddoriaeth Fyw Dan do**

| | |
|---|---|
| Dydd Sul | 12:00 - 24:00 |
| Dydd Llun/ | 12:00 - 24:00 |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:00 | - 24:00 |
| Dydd Mercher | 12:00 | - 24:00 |
| Dydd Iau | 12:00 | - 24:00 |
| Dydd Gwener | 12:00 | - 24:00 |
| Dydd Sadwrn | 12:00 | - 24:00 |

**Cerddoriaeth wedi ei Recordio Dan do**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Sul | 12:00 | - 02:00 |
| Dydd Llun | 12:00 | - 02:00 |
| Dydd Mawrth | 12:00 | - 02:00 |
| Dydd Mercher | 12:00 | - 02:00 |
| Dydd Iau | 12:00 | - 02:00 |
| Dydd Gwener | 12:00 | - 02:00 |
| Dydd Sadwrn | 12:00 | - 02:00 |

**Perfformiadau Dawns Dan do**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Sul | 17:00 | - 23:00 |
| Dydd Llun | 17:00 | - 23:00 |
| Dydd Mawrth | 17:00 | - 23:00 |
| Dydd Mercher | 17:00 | - 23:00 |
| Dydd Iau | 17:00 | - 23:00 |
| Dydd Gwener | 17:00 | - 23:00 |
| Dydd Sadwrn | 17:00 | - 23:00 |

**Cyflenwi Alcohol Ar yr Eiddo**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Sul | 11:00 | - 02:00 |
| Dydd Llun | 11:00 | - 02:00 |
| Dydd Mawrth | 11:00 | - 02:00 |
| Dydd Mercher | 11:00 | - 02:00 |
| Dydd Iau | 11:00 | - 02:00 |
| Dydd Gwener | 11:00 | - 02:00 |
| Dydd Sadwrn | 11:00 | - 02:00 |

**Cynnwys y mesurau ychwanegol, fel y gwelir yn rhan M y cais, fel amodau i'r drwydded**

**Ymgorffori yr amodau a gynigwyd gan yr Heddlu ag eithrio bod yr amod sy'n gwahardd plant rhag mynychu'r safle trwyddedig yn cael ei newid i 23:30**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd gan yr Heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Roedd unrhyw ddigwyddiadau y cafodd yr heddlu eu galw iddynt fel arfer yn faterion yn y carafannau eu hunain yn hytrach nag yn ganlyniad i weithagreddau trwyddedig yn yr eiddo. Roedd yr Heddlu wedi cyfarfod gyda Rheolwr Cyffredinol y Safle i drafod argymhellion i gynnwys amodau a chytunodd yr ymgeisydd i'w cynnwys ar y drwydded ond y dylid amrywio'r amod mynediad i blant i 23:30, gan nad yw'r adloniant yn dod i ben tan 23:00. Cadarnhaodd cynrychiolydd yr heddlu fod hyn yn dderbyniol.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd tystiolaeth yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus,** derbyniwyd un llythyr yn gwrthwynebu gan breswylydd cyfagos oedd yn pryderi y bydd yna gynnydd mewn sŵn o'r safle yn sgil cwsmeriaid sydd wedi meddwi ac yn swnllyd yn gadael y safle yn hwyr yn y nos. Roedd yr

is-bwyllgor yn fodlon serch hynny fod yr amodau ar y drwydded yn enwedig y ffaith mai preswylwyr yn unig oedd yn cael mynychu'r eiddo yn ddigonol i gyfarch y gofidion yma.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed**, roedd amod i'w ychwanegu ar y drwyddded yn gwahardd plant rhag mynychu'r safle trwyddedig ar ôl 23:30.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 12:25

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 12 Mehefin 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), Linda Ann Jones a Gwynfor Owen**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO**

Bangor Grill, 212 Stryd Fawr, Bangor

**Eraill a wahoddwyd:**

Gilly Harradence – Cynrychiolydd yr ymgeisydd
M Muharam - Ymgeisydd
Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)
Ffion Muscroft (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo gan Bangor Grill Limited, 212 Stryd Fawr, Bangor yn gofyn am ganiatáu gwerthiant lluniaeth hwyr y nos fyddai'n cynnwys bwyd poeth fel Kebabs, byrgyrs a pizzas, i'w fwyta oddi ar yr eiddo ar ôl 23:00 yr hwyr, tan 3:30 y bore ar Nos Wener a Nos Sadwrn, tan 3:00 y bore nos Lun a Mercher a tan 2:30 nos Fawrth, Iau a Sul.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod sylwadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn am bendantrwydd yn yr atodlen weithredol i sicrhau presenoldeb goruchwyliwr drysau o 23:00 ymlaen ar nos Wener a Nos Sadwrn. Derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r cais gan Gwarchod y Cyhoedd ar sail y ffaith nad oedd mesurau digonol yn cael eu cynnig gan yr ymgeisydd i sicrhau cydymffurfiad gyda'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus

Tynnwyd sylw fod ymholiadau wedi eu gwneud gyda'r Gwasanaeth Cynllunio parthed statws Cynllunio'r eiddo ac fe dderbyniwyd cadarnhad yn ddiweddarach yn amlygu nad oedd cais newid defnydd wedi ei gyflwyno ar gyfer yr eiddo a bod y gwasanaeth Cynllunio yn ystyried camau gorfodaeth.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell caniatáu y cais yn ddarostyngedig i
a) Gydymffurfio gyda gofynion yr Heddlu
b) cytundeb gan yr ymgeisydd i gydymffurfio gyda mesurau rheoli niwsans a argymhellwyd gan Gwarchod y Cyhoedd
c) Derbyn caniatâd Cynllunio am newid defnydd a chaniatâd i weithredu o dan unrhyw amodau cynllunio parthed amseroedd agor.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:
- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:
- Bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth i Swyddog yr Amgylchedd yn nodi parodrwydd i gydymffurfio gyda mesurau rheoli niwsans
- Nad oedd trigolion yn byw yn ddigon agos i weld/clywed effaith y system echdynnu aer
- Y byddai yn sicrhau na fyddai sŵn yn achosi niwsans
- Y byddai yn sicrhau na fydd arogleuon bwyd yn achosi niwsans

ch) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ar angen i agor tan 3:00yb, nodwyd mai dyma erbyn hyn oedd natur y busnes gyda thafarndai a chlybiau'r Ddinas yn aros ar agor yn hwyrach. Er nad oedd awydd gan yr ymgeisydd i weithio'n hwyr, yn anffodus roedd rhaid gwneud hynny i ymateb i'r angen. Ategodd y Rheolwr Trwyddedu bod yr oriau hyn yn arferol i'r math o eiddo ym Mangor ac nad oedd yr oriau yn wahanol i fusnesau tebyg cyfagos.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pharodrwydd yr ymgeisydd i dderbyn yr amodau a gynigwyd, nododd yr ymgeisydd ei fod yn fwy na bodlon derbyn yr amodau i sicrhau diogelwch.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnwys amod cynllunio / newid defnydd, amlygodd yr ymgeisydd bod llythyr ganddo yn nodi'r angen i gydymffurfio gydag amodau cynllunio ac y byddai'n fwy na pharod i rannu'r llythyr gyda'r Adran Trwyddedu yn cadarnhau hyn.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

**Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)**
- Bod oriau agor yn cyd-fynd gyda sawl eiddo tebyg ym Mangor

**Ffion Muscroft (Swyddog yr Amgylchedd)**
- Pryder am sŵn o'r system echdynnu

- Nad oedd manylion lefelau sŵn yn y cais
- Hapus gyda bwriad yr ymgeisydd i weithredu asesiad sŵn
- Argymell ychwanegu amodau swn i'r drwydded
- Tynnu gwrthwynebiad yn ôl oherwydd parodrwydd yr ymgeisydd i gydymffurfio

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi eu hachos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd;

- Bod gan y cwmni 64 o safleoedd ac felly nid oedd yn gwmni bach
- Bod amodau diogelwch wedi eu cynnig
- Bod y cynllun llawr wedi cael ei addasu
- Bydd rhif ffôn ar gael i drigolion lleol
- Nad oedd oriau ychwanegol yn rhan o'r cai
- Y gobaith yw gwella'r sefyllfa ac na fydd adolygiad o'r drwydded

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu:

- Bod yr amodau arfaethedig a gyflwynwyd wedi newid yr argymhelliad
- Pe byddai'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu y cais a derbyn yr amodau, byddai rhaid i eiriad yr amodau fod yn glir o ran eglurhad gweithredu a gorfodi - bod grym amodi effeithiol gan yr Is-bwyllgor

e) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cygnor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu y cais yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.**

Rhoddir amrywiadau i'r drwydded gyfredol fel a ganlyn:

**1. Darparu lluniaeth hwyr y nos ar ac oddi ar yr eiddo**

| | |
|---|---|
| **Dydd Sul** | **23:00 – 02:30** |
| **Dydd Llun** | **23:00 - 03:00** |
| **Dydd Mawrth** | **23:00 – 02:30** |
| **Dydd Mercher** | **23:00 – 03:00** |
| **Dydd Iau** | **23:00 - 02:30** |
| **Dydd Gwener** | **23:00 – 03:30** |
| **Dydd Sadwrn** | **23:00 - 03:30** |

**2. Cynnwys y mesurau ychwanegol, fel y gwelir yn rhan M y cais, fel amodau i'r**

**drwydded ond gan eu newid i sicrhau bod staff drysau i'w cyflogi o 23:00 ymlaen ar nosweithiau Gwener a Sadwrn.**

3. **Ymgorffori'r amodau canlynol:**

- **Ni chaiff unrhyw sŵn ddod o'r eiddo sy'n achosi niwsans.**
- **Dim sŵn nac arogleuon a achosir gan yr offer echdynnu cegin sy'n arwain at achosi niwsans.**

  **(i) Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn manylu ar y posibilrwydd o sŵn o'r system echdynnu ar y safle yn cael effeithio ar eiddo cyfagos sy'n sensitif i sŵn yn Stryd Isaf, Bangor, LL57 1HN, 1-2 City View, Cae Llepa, Bangor, LL57 1HW ac yn fflat uwchben 210 Stryd Fawr, Bangor.**

  **(ii) Os yw'r asesiad yn dangos bod sŵn o'r fangre yn debygol o effeithio ar eiddo sy'n sensitif i sŵn cyfagos, yna bydd yn cynnwys cynllun manwl o fesurau lliniaru sŵn i ddangos na fydd niwsans yn cael ei achosi i feddianwyr eiddo sy'n sensitif i sŵn cyfagos drwy sŵn o'r fangre drwyddedig.**

  **(iii) Rhaid cwblhau'r holl waith a argymhellir cyn i'r drwydded safle gychwyn ac mae'r Awdurdod Trwyddedu i'w hysbysu o leiaf 5 diwrnod cyn i'r gwaith gael ei gwblhau**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd gan yr Heddlu dystiolaeth o drosedd ac anhrefn fel sail i wrthwynebu'r cais. Serch hynny roeddynt yn awgrymu y dylai staff drysau gael eu cyflogi o 23:00 ymlaen ar nosweithiau Gwener a Sadwrn oherwydd y risg uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig ag alcohol ar benwythnosau.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd tystiolaeth yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus,** cadarnhaodd Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd Cyngor Gwynedd eu bod yn tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl yn dilyn cytundeb yr ymgeisydd i ymgorffori'r amodau a awgrymwyd ganddynt (fel y manylwyd mewn e-bost dyddiedig 7/6/23 gan swyddog Gwarchod y Cyhoedd at gynrychiolydd yr ymgeisydd).

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Er nad yn rhan o'r gyfundrefn drwyddedu cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn cytuno i ymgymryd ag unrhyw ofynion cynllunio yn ôl yr angen.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00 a daeth i ben am 11:40

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 14-07-2023.

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Elfed Williams (Cadeirydd), Gareth Morris Jones a Huw Rowlands**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Lyndsey Thomas (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DDIGWYDDIAD DROS DRO**

Bar Jin, Beechwood House, Dolgellau, Gwynedd LL40 1AU

**Eraill a wahoddwyd:**

- Mr Dean Hawkins - ymgeisydd
- Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)
- Mared Llwyd (Arweinydd Tîm Rheolaeth Llygredd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar geisiadau am ddigwyddiad dros dro yn Beechwood House, Dolgellau, Gwynedd, mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan.

Cais 1 - Rhybudd Digwyddiad Dros dro i gynnal gweithgareddau trwyddedig estynedig i'r hyn sydd ar y drwydded fel rhan o weithgareddau Sesiwn Fawr Dolgellau 21, 22 a 23 o Orffennaf.

Cais 2 - Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i gael cerddoriaeth tu allan a bar tu allan ar y Marian Fawr yn Dolgellau fel rhan o ddigwyddiadau Hwyl yr Haf Dolgellau 19 o Awst

Adroddwyd bod gwrthwynebiad wedi ei dderbyn i'r ddau gais gan y Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd, gyda sylwadau hefyd yn ategu pryderon wedi eu derbyn gan yr Heddlu. Eglurwyd mai dim ond y Cyngor (sydd yn gweithredu cyfrifoldebau Iechyd Amgylchedd) a'r Heddlu sydd gyda'r grym i wrthwynebu rhybudd digwyddiad dros dro. Nid oes trefn o ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y gyfundrefn digwyddiadau dros dro.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell gwrthod y cais gan nad oedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth fyddai'n diwallu pryderon y Cyngor a'r Heddlu ynglŷn â'r ddau ddigwyddiad. Amlygwyd, ers cyhoeddi'r adroddiad, bod poster wedi ymddangos ar y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â natur y digwyddiad os byddai'r rhybudd digwyddiad dros dro yn cael ei ganiatáu. Roedd y poster yn amlygu'n glir nad oedd yr amserlen yn ymwneud a Sesiwn Fawr Dolgellau.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Nad oedd yr eiddo wedi cael ei gynnwys yng ngweithgareddau Sesiwn Fawr Dolgellau - anodd peidio cymryd hyn yn bersonol
- Ei fod yn ceisio gwneud elw wedi covid 19 - gweld cyfle i gymryd mantais o'r digwyddiad
- Bod lleoliadau eraill yn y dref yn chwarae cerddoriaeth yn uchel, pam felly nad oedd modd gwneud hynny yn Beechwood House?
- Ei fod wedi cynnal trafodaethau gyda'r Cyngor a threfnwyr Sesiwn Fawr Dolgellau ynglŷn â cheisio cau'r ffordd, ond nad oedd datrysiad
- Bydd miloedd yn mynychu'r dref ac mi ddylid cau'r ffyrdd i gyd
- Bod pawb yn cael cymryd rhan heblaw am Beechwood House

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd wedi cyflwyno gwybodaeth i'r Swyddog Amgylchedd, nododd nad oedd manylion cyswllt ganddo a'i fod yn cadw cofnod ei hun o'r lefelau sŵn a chwynion fel y gall gysylltu tystiolaeth gyda digwyddiad yn yr eiddo.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r 'ardal allanol', nododd nad oedd ardal allanol i'r eiddo (dim gardd nac ardal allanol i eistedd) ac felly lle i sefyll yn unig fyddai tu allan gyda cherddoriaeth yn cael ei chwarae. Byddai ffenestri a drysau yn aros ar agor.

Mewn ymateb i gwestiwn am y 'gwn sebon' (foam cannon), nododd, gan nad oedd y ffordd yn cau, ni fydd defnydd bellach o'r 'gwn sebon'.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y byddai'n rheoli'r gweithgareddau, nododd y byddai'n talu am ddau warchodwr diogelwch i warchod y drysau rhwng 6pm ac amser cau ar y nos Wener a'r nos Sadwrn ynghyd a chyflogi 5 aelod o staff i fonitro'r gweithgareddau / ymddygiad. Ategodd bod yr eiddo wedi ei leoli gyferbyn a lleoliad yr Heddlu dros y digwyddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn sut y bydd yn cyfarch pryderon o reoli sŵn a phobl, nododd y byddai hyn yn ddibynnol ar y nifer pobl fydd yn mynychu. Ategodd y byddai staff ychwanegol ar gael i reoli a monitro'r sefyllfa, ond anodd fyddai atal pobl rhag sefyll tu allan. Bydd rhaid rheoli'r sefyllfa gyda chefnogaeth staff, gwarchodwyr diogelwch a'r Heddlu.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

**Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru)**

- Bod pryderon diogelwch defnyddwyr ffordd a chwsmeriaid ger yr eiddo wedi eu hamlygu
- Na fydd adnoddau ychwanegol ar gael gan yr Heddlu i gadw golwg ar yr eiddo - nid yw trin y dorf yn waith i'r Heddlu
- Cyfrifoldeb deilydd y drwydded yw gofalu am ei gwsmeriaid
- Bod pob eiddo cyfrifol yn talu am wasanaeth Diogelwch.

**Mared Llwyd (Arweinydd Tîm Rheolaeth Llygredd)**

- Bod nifer o gwynion am yr eiddo, yn seiliedig ar gerddoriaeth uchel, wedi eu derbyn dros y misoedd diwethaf
- Bod cofnodion sŵn (fesul dyddiad ac amser) wedi cael eu cofnodi drwy ap sŵn. Cofnodion ar ffurf log a dyddiadur hefyd wedi eu derbyn
- Byddai cwsmeriaid, sy'n ymgynnull tu allan i'r eiddo, yn achosi rhwystr ac aflonyddwch i eraill fynd heibio
- Bod amod o gau drws a ffenestri yn ystod digwyddiad eisoes ar drwydded yr eiddo. Derbyn y byddai gweithredu hyn yn anodd mewn tywydd poeth, ond bod modd gosod system awyru aer tu mewn i'r eiddo.
- Cyswllt gyda'r ymgeisydd wedi ei wneud drwy ffôn, llythyrau ac e-byst yn nodi'r cwynion ac yn ceisio dealltwriaeth o'r sefyllfa. Cynnig wedi ei wneud i gydweithio i osgoi niwsans cyhoeddus
- Angen mesurau yn eu lle - derbyn dyhead yr ymgeisydd i ddatblygu'r busnes ond rhaid gwarchod y cyhoedd
- Nid yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno mesurau lliniaru sŵn
- Bod digwyddiad Sesiwn Fawr Dolgellau yn gorffen am 8pm yn y stryd gyda gweithgareddau dan do yn parhau yn y Ship. Bod y cais am gerddoriaeth hyd 1am yn hwyrach na phob eiddo arall yn y dref.

Ni dderbyniwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei achos, nododd yr ymgeisydd;

- Derbyn nad oedd mesurau wedi eu cymryd i reoli ardal allanol yr eiddo
- Ei fod yn ymwybodol o'r cwynion – rhain wedi eu gorliwio
- Bod llenni atal sŵn a 'shutters' wedi eu gosod ar y ffenestri
- Ei fod yn cadw log lefelau sŵn a'u bod o fewn y lefelau cyfreithiol
- Ei fod yn gwahodd y swyddogion i weld yr hyn sydd yn cael ei gynnig
- Bydd yr eiddo yn cau ym mis Medi

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu:

- Derbyn bod angen creu bywoliaeth, ond nid ar draul diogelwch y cyhoedd
- Nad oedd eglurhad digonol o fesurau i liniaru pryderon
- Bod yr amod cau ffenestri a drysau wedi ei dorri ar sawl achlysur
- Gan nad yw'r sefyllfa yn gwella, y cam nesaf fydd gosod peiriant cofnodi sŵn yn yr eiddo i gasglu tystiolaeth

Yng nghyd-destun cefndir a natur yr ail gais, nododd yr ymgeisydd mai cais ydoedd i ddarparu lluniaeth, a cherddoriaeth drwy seinydd ar y Marian Fawr, Dolgellau.

e) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor geisiadau'r ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD:**

**YN UNOL Â DEDDF DRWYDDEDU 2003 PENDERFYNWYD GWRTHOD Y CEISIADAU GAN NAD OEDD MANYLION DIGONOL NA MESURAU DIOGELWCH WEDI EU CYFLWYNO GAN YR YMGEISYDD MEWN YMATEB I BRYDERON Y CYNGOR A'R HEDDLU**

Rhesymau:

Cais 1 - Rhybudd Digwyddiad Dros dro i gynnal gweithgareddau trwyddedig estynedig i'r hyn sydd ar y drwydded fel rhan o weithgareddau Sesiwn Fawr Dolgellau 21, 22 a 23 o Orffennaf.

Nodwyd rhwystredigaeth yr ymgeisydd nad oedd wedi ei gynnwys fel rhan o Sesiwn Fawr Dolgellau (SFD). Serch hynny, rôl yr is-bwyllgor oedd ystyried y cais yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth drwyddedu ac yn benodol y pedwar egwyddor trwyddedu, yn dilyn gwrthwynebiad i'r cais gan y Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd a Heddlu Gogledd Cymru.

Ystyriwyd tystiolaeth a barn broffesiynol Swyddog Iechyd yr Amgylchedd fod nifer o gwynion wedi eu derbyn ynglŷn â sŵn yn tarddu o'r eiddo a bod dwy gŵyn yn parhau yn agored ynghyd ag enghreifftiau lle'r oedd yr amodau rheoli sŵn sydd ar y drwydded wedi eu torri gan and oedd y ffenestri ar gau.

Derbyniwyd tystiolaeth gan yr Heddlu yn gwrthwynebu ar sail pryderon o safbwynt diogelwch y cyhoedd y tu allan i'r eiddo lle byddai gweithgareddau trwyddedig yn cael eu cynnal pe caniateir y cais. Nid oedd mesurau cau ffyrdd yn eu lle y tu allan i'r eiddo fel y byddai o fewn ardal SFD. Y rheswm dros gau'r ffyrdd oedd i ddelio gyda'r math o broblemau a fyddai'n codi petai'r cais yn cael ei ganiatáu. Roedd yr Heddlu hefyd yn ymwybodol o gwynion niwsans sŵn ynglŷn â'r eiddo yn y gorffennol.

Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio felly, ar sail y cais a'r hyn ddywedwyd yn y gwrandawiad, y gallai'r ymgeisydd roi mesurau digonol yn eu lle i liniaru'r problemau sŵn nag i warantu diogelwch y tu allan i'r eiddo.

Cais 2 - Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i gael cerddoriaeth tu allan a bar tu allan ar y Marian Fawr yn Dolgellau fel rhan o ddigwyddiadau Hwyl yr Haf Dolgellau 19 o Awst

Roedd y cais yn golygu cynnal bar a chwarae miwsig mewn man cyhoeddus. Nid oedd yr Is-bwyllgor yn credu bod y cais yn darparu digon o wybodaeth ynglŷn â natur y digwyddiad na'r modd roedd yr ymgeisydd yn bwriadu ei reoli i sicrhau digwyddiad diogel na fyddai'n tarfu yn ormodol ar bobl yn y cyffiniau. O ganlyniad ni allai'r Is-bwyllgor fodloni ei hun yn ddigonol o safbwynt yr egwyddorion trwyddedu i fedru caniatáu'r cais.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 11:40